

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	20 Awst 2019
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	21 Awst 2019
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	29 Awst 2019

ENW A THEITL YR AELOD CABINET –

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

PWNC

Cais am ganiatâd i drosglwyddo cyn dŷ Cyngor i aelod o'r teulu o dan gymal Adran 157 Deddf Tai 1985 – 43 Y Waun, Harlech

PENDERFYNIAD

Rhoi caniatâd i berchennog 43 Y Waun, Harlech , i drosglwyddo'r eiddo i aelodau o'r teulu o dan gymal Adran 157 Deddf Tai 1985

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD

Er mwyn gweithredu yn unol ag Adran 157 o Ddeddf Tai 1985

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Nid oes unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol am eu barn.
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad perthnasol.

ADRODDIAD EITHRIEDIG

Ni ellir rhyddhau'r adroddiad perthnasol gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol a Deddf Llywodraeth Leol 1972 a chyfansoddiad y Cyngor.